TRIBIWNLYS DISGYBLU'R EGLWYS YNG NGHYMRU

YN Y MATER O ATGYFEIRIAD GAN ESGOB LLANDAF MEWN PERTHYNAS Â CHWYN YN ERBYN Y PARCHEDIG ROBERT EMLYN DAVIES (YMATEBYDD)

CRYNODEB O DDYFARNIAD Y TRIBIWNLYS I'W GYHOEDDI

1. Cyfarfu Tribiwnlys Disgyblu'r Eglwys yng Nghymru ddydd Llun 7 Medi drwy ddulliau electronig i ystyried atgyfeiriad i'r Tribiwnlys gan Esgob Llandaf mewn perthynas â'r Parchedig Robert Emlyn Davies. Roedd y Parchg Davies, ar adeg yr atgyfeiriad, yn Glerig a oedd yn derbyn enillion neu fudd ariannol arall gan yr Eglwys yng Nghymru, er ers hynny mae wedi ymddeol o'r weinidogaeth. Ar ddyddiad y gwrandawiad, nid oedd ganddo unrhyw rôl yn yr Eglwys yng Nghymru.

2. Canfu'r Tribiwnlys yr Ymatebydd yn euog o ymddygiad sy'n rhoi achos cyfiawn i gywilydd neu dramgwydd yn groes i Bennod IX, paragraff 9 (c) o Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, oherwydd rhwng tua mis Mawrth 2022 a Rhagfyr 2025, roedd yr Ymatebydd, dyn priod, yn cymryd rhan mewn perthynas odinebol ag aelod o'i gymuned blwyfol.

3. Gosododd y Tribiwnlys gosb ar yr Ymatebydd o **Anghymhwyso am saith mlynedd** rhag cyflawni unrhyw swyddogaeth o'i Urddau, gyda'r cyfnod yn dod i ben ar 7 Medi 2033.

Canghellor Mark Powell KC (Llywydd)

18 Medi 2026